



Ystafell 27, Prifysgol Cymru
Cofrestrfa'r Brifysgol, Rhodfa'r Brenin Edward VII
Caerdydd. CF10 3NS
029 2037 6956
Wales@sd-commission.org.uk
www.sd-commission.org.uk/cymru

27 Medi 2010

Elin Jones AC
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig
Llywodraeth Cynulliad Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Elin,

Ymgynghoriad ar Fwyd

- Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn croesawu datblygu strategaeth fwyd ar gyfer Cymru
- Ni ellir mynd i'r afael yn effeithiol â chostau cynyddol bwyd ac anghydraddoldebau bwyd ond trwy ddull integredig cynaliadwy o ymdrin â bwyd lleol
- Mae angen trafodaeth eang ar dystiolaeth ac ymchwil ar bolisi bwyd, fel eu bod yn hysbysu cyfeiriad y dyfodol, er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol y strategaeth hon
- Mae gennym lawer i'r gynnig o ran bwyd yng Nghymru, ac mae angen hyrwyddo hynny ar y llwyfan rhyngwladol

Mae'r llythyr hwn yn cyflwyno'r prif argymhellion a wnaed gan y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar Strategaeth Fwyd ar gyfer Cymru. Daw'r argymhellion hyn o'n Comisiynwyr arbenigol a'n hysgrifenyddiaeth, a chyfranwyr at ein trafodaeth bord gron ddiweddar ar fwyd cynaliadwy.

Mae rôl hollbwysig i fwyd yn y broses o ddarparu gwell ansawdd bywyd i bobl Cymru o fewn terfynau amgylcheddol, ac mae dull integredig, cynaliadwy o ymdrin â bwyd yn ateb ymarferol i'r heriau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd mae Cymru'n eu hwynebu. Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn cymeradwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru am ddatblygu strategaeth fwyd at y dyfodol, ac mae'n annog llywodraethau Cymru yn awr ac yn y dyfodol i wneud popeth o fewn eu gallu i gyflawni'r strategaeth hon.

Cwestiynau 1 a 2 – Y Weledigaeth

Mae bwyd yn fater trawsbynciol sy'n effeithio ar holl feysydd polisi'r llywodraeth; mae felly'n hanfodol bod gennym weledigaeth gref sy'n adlewyrchu lefel y dylanwad hwn. Mae gwireddu'r weledigaeth yn dibynnu ar gynllun gweithredu sydd yr un mor gryf, nad yw'r ddogfen ymgynghori yn ei gyflwyno eto. Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn argymhell yn gryf sicrhau bod y weledigaeth yn cael ei rhannu gan randdeiliaid allweddol o'r sectorau

ffermio a busnesau bwyd, sefydliadau cymdeithas sifil a llunwyr polisi ar lefel leol a chenedlaethol, a bod y rolau a'r amserlenni perthnasol ar gyfer cyflawni yn glir.

Mae'r Weledigaeth yn uchelgeisiol yn ei chwmpas, a bydd angen buddsoddi nawr os yw'r cyfnod o ddeng mlynedd i gael ei gyflawni. Wrth i effeithiau prisiau cynyddol nwyddau a'r newid yn yr hinsawdd gael eu teimlo'n fwy cyffredinol, bydd yn bwysig diweddarau'r weledigaeth i adlewyrchu'r materion hyn.

Mae hefyd yn bwysig bod y strategaeth a fydd yn deillio o hynny yn derbyn digon o gefnogaeth gyffredinol i barhau o dan lywodraethau Cymru yn y dyfodol. Mae bwyd yn dylanwadu ar gynifer o feysydd polisi fel bod perygl iddo syrthio rhwng gwahanol bortffolios, ac mae'n hanfodol osgoi hynny.

Rydym wedi nodi rhai bylchau yn y weledigaeth ddrafft. Nid yw'r weledigaeth yn cynnwys pwysigrwydd bwyd a dyfir yn uniongyrchol gan bobl gartref ac ar randiroedd lleol. Er mai rhan fach o'r farchnad fwyd yw hyn yn awr, mae'n dod i'r amlwg yn 2010 fel maes cynhyrchu bwyd sydd ar gynydd, ac ni ellir ond disgwyl iddo dyfu tuag at 2020 wrth i brisiau bwyd godi. Mae'n chwarae rôl a allai fod yn bwysig o ran annog pobl i feddwl mwy am eu dewisiadau bwyd, o ble mae bwyd yn dod, ac i ystyried materion cynaliadwyedd ehangach. Bydd felly'n bwysig bod y llywodraeth a'r diwydiant bwyd yn gweithio ochr yn ochr â'r ffynhonnell gynyddol hon ar gyfer cynhyrchu bwyd, yn ogystal â sbarduno cydnabyddiaeth i frandiau bwyd a diod o Gymru ar y llwyfan rhyngwladol. Rhaid cefnogi cynhyrchwyr a gwneuthurwyr bwyd i gofleidio cynaliadwyedd, er mwyn bod yn arweinwyr a gydnabyddir yn fyd-eang ym maes cynhyrchu bwyd cynaliadwy, ansawdd uchel.

Mae angen i'r Weledigaeth hefyd roi sylw i faterion tlodi bwyd ac anghydraddoldeb sydd eisoes yn bodoli yn 2010, er mwyn sicrhau mynediad teg a fforddiadwy i fwyd iach i bawb. Mae digon o gyfeiriadau mewn dogfennau at effeithiau iechyd negyddol anghydraddoldebau o'r fath, yn cynnwys afiechyd cysylltiedig â deiet¹. Mae gan Gymru eisoes gyfraddau uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig ar gyfer gordewdra, sy'n golygu bod perygl o gostau iechyd uchel yn y tymor hir. O ystyried yr hinsawdd economaidd gyfredol a'r dystiolaeth bod prisiau bwyd yn codi'n gyflym, mae angen i hyn fod yn flaenoriaeth i lywodraeth Cymru er mwyn osgoi perygl canlyniadau cymdeithasol gwael, yn cynnwys ymddatodiad cymdeithasol posib, a dylid ystyried cyfraddau gordewdra fel dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer cyflawni deiet cynaliadwy.

Cwestiwn 3 – Yr Agenda Ehangach

Gall bwyd ddylanwadu ar feysydd allweddol y mae'r llywodraeth yn gweithredu ynddynt, a chael effaith gadarnhaol ar ddangosyddion datblygu cynaliadwy. Cydnabyddir yn gyffredinol fod lles yr unigolyn a chyfiawnder cymdeithasol yn drwm o dan ddylanwad dewisiadau bwyd². Wrth gynnwys bwyd mewn polisi economaidd, rhaid gofalu nad yw canolbwyntio ar dwf yn tanseilio amcanion cynaliadwyedd ehangach. Yn arbennig, o ystyried nad yw bwyd yn sector o dan Raglen Adnewyddu Economaidd Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, mae'n bwysig bod cwmnïau sy'n gweithredu yn y sector gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd yng Nghymru, sy'n cynnwys llawer o frandiau cyfarwydd, yn derbyn digon o gefnogaeth i weithredu mewn modd cynaliadwy sydd hefyd yn creu elw.

Byddai'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn argymhell bod y gwaith i ddatblygu dangosyddion ar gyfer system fwyd gynaliadwy fel rhan o bolisi Bwyd 2030³ yn cael ei efelychu mewn modd perthnasol yng Nghymru, fel bod modd monitro effeithiau polisi bwyd ar feysydd eraill yn ofalus, a dathlu effaith bwyd ar ddyfodol cynaliadwy.

¹ Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, 2010. *Datblygu Cynaliadwy: Yr Allwedd i fynd i'r afael ag Anghydraddoldebau Iechyd*. (<http://www.sd-commission.org.uk/publications.php?id=1053>)

² New Economics Foundation, 2010. *An Inconvenient Sandwich*. (<http://www.neweconomics.org/publications/inconvenient-sandwich>)

³ DEFRA 2010. *Bwyd 2030*. (<http://www.defra.gov.uk/foodfarm/food/pdf/food2030strategy.pdf>)

Cwestiwn 6 – Mecanwaith Cyflawni

Er bod y ddogfen ymgynghori'n glir o ran y weledigaeth ar gyfer y dyfodol, mae'n llai eglur ynghylch sut cyflawnir hynny. Bydd cynlluniau gweithredu effeithiol yn hollbwysig i helpu pob rhanddeiliad i ddechrau'r daith tuag at system fwyd gynaliadwy, ac rydym yn pryderu na fydd yr wybodaeth a ddatblygwyd wrth wireddu'r weledigaeth yn cael ei rhannu a'i diweddar'u'n ddefnyddiol heb gynllun cliriach ynghylch sut mae symud ymlaen. Byddai'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn annog datblygu a chyhoeddi mapiau cynaliadwyedd yn gynnar, er mwyn cynorthwyo pob un o'r rhanddeiliaid i gyflawni hyn mewn modd cynaliadwy.⁴

Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy o'r farn y bydd cyngor cenedlaethol effeithiol ar bolisi ac ymchwil bwyd yn hanfodol er mwyn trafod y dystiolaeth a'r ymchwil sy'n dod i'r amlwg ar faterion bwyd, ac adrodd y canlyniadau'n uniongyrchol i'r llywodraeth. Byddai angen i grŵp o'r math hwn adlewyrchu barn arbenigol rhanddeiliaid ar draws y sector bwyd ehangach, a gweithredu'n agored ac yn atebol. Gallai hyn ddatblygu rôl y Bartneriaeth Ymgynghorol ar Fwyd a Diod, sydd eisoes yn bodoli, er mwyn cynnwys mwy o bwyslais ar ganfyddiadau ymchwil a gwyddoniaeth sy'n dod i'r amlwg. Gwerth y cyngor fyddai ei allu i gyflwyno syniadau arbenigol a dadleuon rhesymedig gyda sylfaen gadarn o dystiolaeth yn uniongyrchol i'r llywodraeth.

Er mwyn gweithredu'r weledigaeth yn effeithiol, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddod â phob rhan o'r diwydiant bwyd ynghyd yn effeithiol, o'r gallu i gyflawni ymchwil amaethyddol, i gynhyrchwyr bwyd cynaliadwy a defnyddwyr gwybodus. Byddai cyngor cryf, a allai hysbysu dewisiadau polisi trwy ei sylfaen o dystiolaeth, o fudd i'r mecanwaith hwn.

Cwestiwn 8 - Cynaliadwyedd

Datblygu Cynaliadwy yw Prif Egwyddor Drefniadol Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac felly mae'n ddiamau wrth wraidd pob polisi a lunnir ar fwyd.

Yn y strategaeth ddrafft ymdrinnir â chynaliadwyedd trwy ganolbwyntio ar agweddau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Elfennau hollbwysig sydd ar goll yw egwyddorion llywodraethu da, a defnydd cyfrifol o wyddoniaeth gadarn, fel a geir yn Fframwaith y Deyrnas Unedig ar Ddatblygu Cynaliadwy⁵. Byddai'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn argymhell bod y fersiwn ôl-ymgynghori o'r strategaeth yn ymgorffori dealltwriaeth glir o'r agweddau hyn ar ddatblygu cynaliadwy, ac ymrwymiad iddynt.

Mae ar y sector bwyd ehangach angen arweinyddiaeth a chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni cynaliadwyedd yn ei waith. Mae angen i'r polisi bennu cyfeiriad clir tuag at ddyfodol cynaliadwy, yn ogystal â rhoi i'r diwydiant a defnyddwyr yr wybodaeth a'r offer y mae arnynt eu hangen i gyflawni cynaliadwyedd.

Cwestiynau 10 & 13 – Rôl bwyd a llunio polisiau yn y dyfodol

Mae cylch dylanwad bwyd ar bolisiau eraill y llywodraeth yn eang, ond ni all weddnewid y meysydd a restrir yng nghwestiwn 10 ar ei ben ei hun. Mae'n bwysig bod polisiau'r llywodraeth yn cynnal datblygiad y strategaeth fwyd, yn union fel bydd y strategaeth fwyd yn helpu i gyflawni amcanion eraill.

Y ffordd orau o gyflawni Datblygu Cynaliadwy yw os bydd gan y llywodraeth a'r diwydiant ddealltwriaeth glir o'r cysylltiadau a'r mecanweithiau rhwng y meysydd polisi hyn, a'r rolau y disgwylir i bob un ohonynt eu cyflawni. Tasg bwysig fyddai mapio'r holl rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'r diwydiant bwyd, ynghyd â'u dulliau o ryngweithio, fel y

⁴ Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy (2007) *You Are What You Sell*. (<http://www.sd-commission.org.uk/publications.php?id=624>)

⁵ DEFRA, 2005. *One Future, Different Paths – The UK's Shared Framework for Sustainable Development*.

(<http://www.defra.gov.uk/sustainable/government/documents/SDFramework.pdf>)

The Sustainable Development Commission Limited. Registered in England and Wales, no. 6798740. Registered office 55 Whitehall, London SW1A 2EY VAT no. 946 3268 01

Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy Cyfyngedig. Rhif cofrestredig yng Nghymru a Lloegr 6798740. Swyddfa gofrestredig 55 Whitehall, London SW1A 2EY Rhif TAW 946 3268 01



gwnaed wrth ddatblygu'r strategaeth ar Wastraff. Mae'n hanfodol bod hyn yn ceisio canfod y cyflenwyr hynny yn y gadwyn cynhyrchu bwyd gyflawn sydd yn aml yn anweladwy i'r defnyddwyr terfynol, er mwyn helpu i ganfod ble gellir cyflawni'r ymyriadau mwyaf effeithiol o ran polisi a rheoleiddio.

Bydd cydweithio effeithiol rhwng yr holl bartneriaid dan sylw yn hanfodol i lwyddiant y strategaeth, gan gydnabod bod dyfodol tymor hir Cymru yn dibynnu ar weithredu cyfrifol gan bawb dan sylw. Gall hyn gael ei arwain gan ddefnyddwyr a'r farchnad i ryw raddau, ond mae'n bwysig cydnabod cyfyngiadau dull y farchnad, a rôl bwysig y llywodraeth a busnes wrth sbarduno a chymell newid. Er enghraifft, gall newidiadau a yrrir yn genedlaethol drwy reoleiddio a gorfodi, trwy osod safonau (e.e. safonau caffael bwyd y sector cyhoeddus, safonau prydu ysgol), trwy addasu dewisiadau a thrwy gymhelliant prisio, i gyd wneud gwahaniaeth pwysig. Mae rôl bwysig yma ar gyfer strategaeth newid ymddygiad integredig er mwyn galluogi pobl i ddewis deiet mwy cynaliadwy. Mae gwaith y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn y maes hwn⁶ yn darparu tystiolaeth bellach y gallai strategaeth i Gymru adeiladu arni.

Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn pryderu nad yw cwestiynau gwaelodol ynghylch gallu Cymru i gynhyrchu bwyd yn y dyfodol yn derbyn sylw yn y strategaeth, gan gynnwys ymdrin â ffrwythlondeb pridd, sut mae mynd i'r afael â chymeriant uchel o gig a chynnyrch llaeth fel rhan o ddeiet cynaliadwy, sut mae hyrwyddo garddwriaeth yng Nghymru, a sut mae mynd i'r afael â materion cost cynnyrch cartref megis grawnfwydydd. Mae lleoli'r strategaeth hon wrth wraidd y broses o lunio polisi yn y llywodraeth yn hanfodol i sicrhau dyfodol cynaliadwy, ac eto nid yw'r cysylltiadau rhyngddi a pholisïau megis y Fframwaith Amgylcheddol Cenedlaethol, y Rhaglen Adfywio Economaidd, ymchwil y Pwyllgor Cynaliadwyedd i Randiroedd, y Cynllun Gweithredu Bwyd Lleol, a pholisi sy'n dod i'r amlwg megis Sêr Gwyrdd Twristiaeth, wedi'u datblygu'n dda.

Nodiadau i Gloi

Dim ond ambell enghraifft a geir ar draws y byd o newid sylweddol llwyddiannus ym maes cynhyrchu a chymeriant bwyd sy'n wirioneddol gynaliadwy, ond gyda'r weledigaeth glir hon ar gyfer y dyfodol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei rhoi ei hun mewn sefyllfa dda i gyflawni hynny.

Mae'n hanfodol bod gwleidyddion ar draws yr holl bleidiau yn deall pwysigrwydd y strategaeth, ei bod yn cael ei chefnogi a'i datblygu i'r dyfodol, ac nad yw'n cael ei gadael yn dasg i'r marchnadoedd presennol yn unig.

Fel yn achos pob strategaeth, fodd bynnag, mae i ba raddau y bydd yn effeithiol wrth adeiladu cynaliadwyedd, diogeldd a gwytnwch yn dibynnu ar weithrediad sy'n rhoi lle canolog i ddatblygu cynaliadwy, a lle nad yw elw tymor byr yn cael ei wobrwyo ar draul ffyniant a lles Cymru a'i phobl yn y dyfodol.

Yn gywir,

Peter Davies

Comisiynydd Cymru, Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy

⁶ Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, 2009. *Setting the Table: Advice to Government on priority elements of sustainable diets.* (<http://www.sd-commission.org.uk/publications.php?id=1033>)